# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 11.09.19 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Ian Williams, Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, John Griffiths, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Derbyn llythyr ymddiswyddo gan Malcolm Hills.
   **Penderfyniad** ➞ Hysbysu Swyddog Cofrestru Cyngor Gwynedd am ei ymddiswyddiad.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11.07.19 fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Keith Carroll **Eilio –** Geraint Edwards **Arwyddwyd –** Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (11.07.19):** Dim

5. **Gohebiaeth:**

   **Cyngor Gwynedd – Materion Cymunedol**

   **a)** Derbyn Rhaglen Waith – Mis Awst a Mis Medi 2019.
   **b)** Gwastadgoed Uchaf - cadarnhad fod y gwaith arfaethedig i osod slab concrit a rhoi uned silffoedd i ddal blychau glas ailgylchu ar y safle, i fynd ymlaen.
   **c)** Arwyddion ar ochr y ffordd o Friog i Lwyngwril ➞ cadarnhad fod y gordyfiant wedi cael ei dorri.
   **d)** Arwyddion yn "lay-by" Llwyngwril ➞ cadarnhad gan Gyngor Gwynedd fod arwyddion newydd wedi eu harchebu.
   **e)** Hysbyseb swydd "Canfaswyr Etholiadol" ar gyfer canfasi blynyddol eleni.

   **Un Llais Cymru**

   **f)** Er gwybodaeth: esboniad cyfreithiol ynglŷn â chymorth ariannol i eglwysi.
   **g)** Er gwybodaeth: Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 – Dyletswydd Cynghorau Cymuned o dan Adran 6
   **Penderfyniad** ➞ anfon llythyr at Un Llais i ofyn beth yn union sydd yn ofynnol o gynghorau cymuned "bach" ??

   **Parc Cenedlaethol Eryri**

   **h)** Camfa ger Pant Gwyn, Llwyngwril – llythyr gan y parc yn cadarnhau fod y gamfa yma wedi cael ei thrwsio.
   **i)** Gwahoddiad i aelodau'r cyngor cymuned fynychu cyfarfod gyda swyddogion y Parc
   **Penderfyniad** ➞ Ian Williams wedi cynnig mynd i'r cyfarfod yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi, 03.10.19.
   **j)** Cynllun Datblygu Lleol Eryri - gwybodaeth wedi ei dderbyn ac wedi ei roi yn y cabinet ffeilio yn y Ganolfan.

   **k)** Llythyr gan Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am y rhodd o £25.00 gan y Cyngor Cymuned.
   **l)** Llythyr gan Marie Curie, Gogledd Cymru, yn gofyn am gymorth ariannol
   **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i gefnogi'r cais yma = £50.00. **Cynnig:** John Griffiths **Eilio:** Ian Williams.
   **m)** Llythyr wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned yn dangos diddordeb i fod yn aelod ar y Cyngor Cymuned.

6. **Materion Cynllunio:**

1. **NP5/69/119D - Tŷ Croes Isaf, Rhoslefain, LL36 9NH -** Adeiladu garej triphlyg ynghlwm ac ail-doi'r ystafell wydr presennol gyda llechi
2. **NP5/69/100A – Hafod Las, Llwyngwril, LL37 2UZ –** Adeiladu estyniad ochr unllawr
3. **NP5/69/113G – Llanfendigaid, Rhoslefain, LL6 9LS -** Gosod 4 pod gwersylla fel llety gwyliau
4. **NP5/69/118D – Bryn Eithin, Llwyngwril –** Adeiladu estyniad deulawr ar yr edrychiad blaen a gosod ffenestr dormer to fflat ychwanegol ar y cefn
5. **NP5/69/401 – Gwastadgoed Ganol, Llwyngwril, LL37 2QR –** Adeiladu estyniad ochr unllawr
   **Penderfyniad ➞ (1➞5) ➞** dim sylwadau/gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

6. **NP5/69/252B – Gelliwen, Llwyngwril, Gwynedd LL37 2YJ –** adeiladu estyniad unllawr a deulawr, adeiladu garej gyda sied ac ymestyn y cwrtil domestig gan gynnwys gwaith cysylltiol i'r dreif
   **Penderfyniad** ➞ sylwadau'r cyngor cymuned i'w hanfon i'r Parc Cenedlaethol Eryri ag hefyd i Gyngor Gwynedd.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.
Derbyniwyd Adroddiad Mis Gorffennaf/Awst 2019 yn gywir.
**Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Kevin Goodchild **Arwyddwyd –** Huw Davies.

**a)** Manylion Taliad gan Manweb am £17.08 (Wayleave).
**b)** Manylion Taliad gan Gyngor Gwynedd am £4,900.00 (Praesept).

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Ddim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

a) **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) –** datganiad o daliadau blynyddol, am y flwyddyn ariannol 2018/19, wedi ei chwblhau, a'i chyhoeddi ar wefan y cyngor cymuned, ar hysbysfwrdd y cyngor cymuned yn Rhoslefain a Llwyngwril, a chopi wedi ei hanfon at y Panel.

b) **Network Rail** - dim i'w adrodd gan NWR ynglŷn â dyddiad cychwyn y gwaith ar y rhwystrau diogelwch ger Friog.

c) **Japanese Knotweed yn Llwyngwril**: er gwybodaeth - gwaith chwistrellu i gael eu wneud yn fuan.

d) **Y Cae Chwarae, Llwyngwril** – adroddiad wedi ei dderbyn fod y teils du sydd wedi eu gosod o dan yr offer chwarae plant wedi mynd yn beryglus o lithrig, yn enwedig pan yn wlyb
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â G L Jones i ofyn iddynt asesu cyflwr y teils du, ag anfon lluniau iddynt.

**Cyngor Gwynedd - Materion Cymunedol**

e) **Llwybr y traeth,** ger Borthwen/Llwybr y Perthi **-** adroddiad wedi ei dderbyn fod y llwybr yma yn dirywio yn ofnadwy a bod dim llawer o le i gerdded arno erbyn hyn
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am eu sylwadau.

f) **Chwyn** ar ochr y ffordd, rhwng Llwyngwril a Rhoslefain, ag o amgylch yr arwydd ger Pontycletwr, Llwyngwril -
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i'w hysbysebu am hyn.

g) **Ffordd ger Parc Carafanau Sunbeach** - adroddiad wedi ei dderbyn fod y ffordd yma yn berygl oherwydd bod coed ar dir Sunbeach yn rhwystro pobl weld y ffordd o'i blaen yn glir
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i'w hysbysebu am hyn.

h) **Llwybr drwy Barc Carafanau Sunbeach** - un o'r gatiau ar y ffordd yma wedi ei gloi
**Penderfyniad** ➞ gofyn i Gyngor Gwynedd am ymateb diffiniol i'r ymholiad blaenorol ynghylch a'r mater hwn.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 09.10.19 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………………… Dyddiad ………………………………**